# Ein Hadolygiad Blynyddol i Gwsmeriaid

2023/24



MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Cynnwys


## Croeso i MHA

4 Sut rydyn ni wedi perfformio - ein hystadegau allweddol

## Ein Cartrefi

5 Buddsoddi yn ein cartrefi a chynnal a chadw
6 Gofalu am ein cartrefi
8 Adeiladu ar gyfer y dyfodol

## Ein Gwasanaethau

10 Ein gwasanaethau cymdogaeth
15 Cefnogi ein cymunedau
16 Peidiwch â cherdded heibio – stori tenant - ASTUDIAETH ACHOS
18 Uchafbwyntiau o'r gymuned
24 Nawdd cymunedol
26 Together Works yn Gofyn am Ychydig Mwy - ASTUDIAETH ACHOS
27 Grymuso trwy ymgysylltu â'r gymuned - ASTUDIAETH ACHOS

## Ein Busnes

28 Ein gwasanaeth incwm
28 Ein hymrwymiadau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
31 Codi arian i elusennau
35 Yn falch o weithio i MHA
32 Cysylltu â ni
34 Dewch i ni Gymdeithasu

## Ein Planed

35 Gweithio i ddatgarboneiddio ein cartrefi

## Ein Pobl

36 Ein Tîm Gweithredol
37 Aelodau ein Bwrdd
38 Sut i gymryd rhan – Llais Cymunedol
39 Eich adborth



0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing

X.com/mon_housing


Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn unrhyw iaith arall, fel PDF, mewn print bras neu Braille neu fel recordiad sain.

# Croeso i MHA

**Mae'n bleser gen i gyflwyno adolygiad blynyddol MHA, a'r un cyntaf i fi fel Cadeirydd. Rydw i wrth fy modd fy mod i wedi cymryd yr awenau, ar ôl bod yn Is-gadeirydd am 7 mlynedd; felly mae gen i lawer o brofiad o MHA ac ardal hyfryd Sir Fynwy.**

Rwy'n gwybod bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd i lawer o bobl, felly ffocws allweddol o hyd yw parhau i gefnogi preswylwyr trwy'r cynnydd parhaus mewn costau byw.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad o'r flwyddyn ddiwethaf ac mae hefyd yn rhannu rhai o'n cynlluniau cyffrous ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Cewch ragor o fanylion yn yr adroddiad hwn, ond un o fy uchafbwyntiau yw cyrraedd y garreg filltir o **helpu i gynyddu incwm ein preswylwyr fwy nag £1.1 miliwn** trwy rannu ein cyngor arbenigol, helpu i gael mynediad at grantiau, a chynorthwyo gyda hawliau heb eu hawlio, i'w helpu nhw gyda'u sefyllfa ariannol.

Rydyn ni'n parhau i wella ein cynnig digidol ar gyfer ein preswylwyr, a **lansiwyd ap MyMHA** yr haf hwn, i'ch galluogi i gael mynediad 24/7 i'ch cyfrif; i wneud taliadau, trefnu atgyweiriadau a'u tracio, a mwy.

Yn ogystal, rydyn ni wedi creu gwefan newydd sy'n cynnig mwy o swyddogaethau ac sy'n fwy hygyrch, a bydd yn cynnig siwrnai well i gwsmeriaid. Peidiwch ag anghofio bod ein gwrws digidol iConnect wrth law os oes angen unrhyw gymorth digidol arnoch!

**Diolch yn FAWR iawn i'r preswylwyr hynny a gymerodd ran yn y treialon ar gyfer ein gwefan a'r ap, ac yn ein hymgynghoriadau a'n harolygon, trwy gydol y flwyddyn. Mae eich ymgysylltiad a'ch brwdfrydedd wedi helpu i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau iawn yn y ffordd iawn.**

Os ydych chi'n ei chael yn anodd, cofiwch estyn allan i ni; mae gennym wasanaethau tenantiaeth, ariannol, coetsio a chymorth gwych sydd wedi helpu cannoedd o gwsmeriaid ac sydd yma i'ch cefnogi.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen yr adolygiad blynyddol eleni, a buasem wrth ein bodd i gael eich barn amdano.



Tony Deakin,

**Cadeirydd y Grŵp**

# Sut rydyn ni wedi perfformio - ein hystadegau allweddol!

**100%**
o apwyntiadau ar gyfer atgyweiriadau wedi cael eu cadw

**97.42%**
o denantiaid yn fodlon ag atgyweiriadau

**3,800+**
o gartrefi yn cael eu rheoli gennym

**2.18%**
o ôl-ddyledion rhent

**51**
o dai newydd fforddiadwy

**258**
o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol

**96.41%**
o atgyweiriadau yn iawn y tro cyntaf

## *Canlyniadau Arolwg Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg tenantiaid ar draws y sector bob blwyddyn, ymhlith cwsmeriaid y 46 o landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru. Rydyn ni'n parhau i fod ymhlith y lefelau uchaf o foddhad yng Nghymru a gwerthfawrogwn yr adborth rydych chi'n ei roi i ni ynghylch sut i wella. **Cadwch lygad am rai o ganlyniadau MHA (arolwg LIC) sydd wedi'u cynnwys hwnt ac yma yn yr adolygiad hwn.**

***Services provided by your social landlord (WG survey):**

**90%**
ar gyfer boddhad (4ydd safle)

# Ein Cartrefi

## Buddsoddi yn ein cartrefi a chynnal a chadw

Rydyn ni'n gwneud ein rhan i gadw ein cartrefi mewn cyflwr arbennig o dda. Yn 2023/24 gwariwyd cyfanswm o £10.51m ar ein rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw.

**£5.695m**
o waith atgyweirio wedi'i gynllunio

**£1.902m**
o atgyweiriadau i eiddo gwag

**£195k**
o atgyweiriadau cylchol

**£154K**
ar gydymffurfio ag iechyd a diogelwch

**£2.563m**
o atgyweiriadau ymatebol (cynnal a chadw arferol))

### Atgyweirio ein cartrefi a chynnal a chadw

**3,492**
o wiriadau diogelwch nwy wedi'u gwneud

**2,854**
o atgyweiriadau brys wedi'u cwblhau

**1,359**
o wiriadau diogelwch trydanol (EICR) wedi eu gwneud

**13,266**
o atgyweiriadau wedi eu gwneud

# Gofalu am ein cartrefi

Mae MHA wedi ymrwymo i adeiladu a chynnal cymunedau cynaliadwy lle mae preswylwyr yn teimlo'n ddiogel ac sy'n lleoedd gwych i fyw.

Gwariwyd **£6.6m** ar gyflawni gwelliannau sylweddol yn ein tai

Buddsoddwyd **£969k** i uwchraddio a chynnal gatiau, ffensys, llwybrau, meysydd parcio a waliau ffin trwy ein rhaglen o waith allanol

**Yn 2023/24 rydyn ni wedi ...**

gosod **128** cegin ac ystafell ymolchi

gosod **187** uwchraddiad gwres i foeleri

gosod **147** ffenestr a drws

gosod **122** to newydd

**Cafodd ein Tîm Gwasanaethau Adeiladu ganmoliaeth yng nghategorïau 'Trawsnewidiad Digidol' y Gwobrau Technoleg Tai a'r Gwobrau Digidol Tai Cenedlaethol.**

***Y ffordd y mae eich cymdeithas dai yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw' (arolwg LIC):**

**85%** ar gyfer boddhad (6ed safle)

**Rydyn ni WRTH EIN BODD i gael eich adborth ...**

## Meddai Elaine...

*"Diolch i'r saer coed a ddaeth i drin fy nghlo y bore 'ma. Roedd Stacey mor hyfryd, yn broffesiynol iawn ac roeddwn i eisiau diolch iddo gan fy mod i nawr yn teimlo'n ddiogel yn fy nghartref."*

---

## Meddai Carole...

*"Diolch a rhowch fy niolchiadau i Karl a ddaeth i wasanaethu fy moeler heddiw, ac i MHA. Roedd yn berffaith a gwnaeth jobyn gwych. Rwy'n teimlo'n freintiedig i fyw mewn eiddo MHA a gallwn i ddim bod yn hapusach."*

---

## Meddai Simon...

*"Rydw i eisiau diolch i MHA a'r crefftwr a ddaeth i drwsio fy nghawod ddoe, ac am osod un newydd mor gyflym. Roeddwn i'n poeni cymaint y byddwn i heb gyfleusterau ymolchi ac rwy'n ddiolchgar iawn am wasanaeth mor gyflym."*

**Gallwch gwyno neu adael gair o ganmoliaeth trwy'r adran Cysylltu â Ni ar y wefan.**

# Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael ac rydyn ni wedi ymrwymo i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged o 20,000 o dai fforddiadwy carbon isel newydd yng Nghymru.

**Yn 2023 rydyn ni wedi cyflawni ...**

**51**

o dai newydd fforddiadwy

**168***

o dai fforddiadwy wedi eu sicrhau yn barod i'w hadeiladu

**26**

o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu

**4**

cartref Cymorth Prynu wedi eu GWERTHU

***Mae hyn yn cynnwys datblygiad gyda 120 o unedau yn Fferm Rockfield, Gwndy, sef safle mwyaf MHA hyd yma.**

Yn rhan o gynlluniau adfywio'r Cyngor ar gyfer canol tref Cil-y-coed, rydyn ni wedi prynu Tŷ Holman ac wedi dechrau ei adnewyddu

## Edrych **Ymlaen**

Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau gwastraff adeiladu a gwella ansawdd ein cartrefi hyd yn oed ymhellach. Lle rydyn ni'n dylunio ac yn adeiladu ein cartrefi ein hunain, rydyn ni'n anelu at gyflawni'r sgôr effeithlonrwydd ynni uchaf, sef A, ar gyfer Tystysgrifau Perfformiad Ynni.

Byddwn yn ceisio defnyddio dulliau adeiladu modern ac arloesedd newydd lle bo hynny'n bosibl, yn ein hymgais i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.



Adeiladu cartrefi ynni-effeithlon sy'n addas ar gyfer y dyfodol

# Ein Gwasanaethau

## Ein gwasanaethau cymdogaeth

Eleni, rydyn ni wedi ail-lansio ein hymgyrchoedd ar droed o amgylch ystadau a'n sesiynau galw-heibio wythnosol ar gyfer incwm a chymorth cymdogaeth, o amgylch y sir, gan ein bod eisiau bod yn agosach at y bobl a'r cymunedau yr ydyn ni'n eu gwasanaethu.

### Cadw eich ardaloedd cymunol yn lân ac yn gli

Atgyfnerthodd arolwg tenantiaid 2021 y ffaith nad oedd nifer o denantiaid yn fodlon â safon y glanhau cyffredinol.  Eleni, lansiwyd ein gwasanaeth glanhau mewnol ni'n hunain ac mae'r adborth hyd yma wedi bod yn ardderchog. Gallwn hefyd ddarparu gwasanaeth glanhau dwys, a chwblhawyd ugain o ystadau hyd yn hyn.

Yn dilyn ein harolwg trwy neges destun, rydyn ni'n ystyried yr holl adborth ynghylch sut y gallwn wella ein gwasanaeth ymhellach a byddwn yn cysylltu eto yn fuan.

## Cwsmer hapus...

***"Mae'r gwasanaeth glanhau newydd yn ardderchog.  Maen nhw'n gwneud gwaith trylwyr, ac mae'n gwneud cymaint o wahaniaeth i ddod adref i adeilad a chyntedd glân, hyfryd. Diolch."***





Creu lleoedd yr ydych chi'n falch o'u galw'n gartref

## Eich Lle, Eich Ardal

Eleni, lansiwyd ein rhaglen waith amgylcheddol 'Eich Lle, Eich Ardal' a fu'n canolbwyntio ar wella a chodi ein hardaloedd awyr agored a'n cymunedau.

**Dyma beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud:**

**£15,000**

Trawsnewid gardd yn Granville Street gan greu lle gwyrddach ac ecogyfeillgar i denantiaid ei fwynhau

**£17,000**

Gwella mynediad a chyrbau yn The Reddings

**£88,000**

Darparu mannau gardd preifat yn Somerset Way gyda ffensys newydd i greu mwy o breifatrwydd a mannau diogel y gall tenantiaid eu mwynhau

Cyflwyno ceisiadau cynllunio i wneud gwaith gwella yn Oakley Way, Davis Court a St Andrews Crescent

***Fy nghymdogaeth fel lle i fyw (Arolwg LIC):**

**84%**

yn fodlon (9fed safle)

## Creu lleoedd diogel i fyw

Mae ein Tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod yn brysur yn helpu i'ch cadw'n ddiogel yn eich cartrefi a'ch cymunedau.

Yn 2023/24 fe fuon ni'n archwilio dull gweithredu mwy 'adferol'; gan edrych yn agosach ar ymddygiadau, rhyngweithiadau a dulliau gweithredu. Fe fuon ni'n helpu i adeiladu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol, iach a datrys a gwella anghydfodau mewn cymdogaethau.

**Dyma flas ar yr hyn y maen nhw wedi bod yn ei wneud ...**

**77**
o atgyfeiriadau am gymorth

**22**
o atgyfeiriadau am gwnsela

**58**
o bobl a oedd yn dioddef cam-drin domestig wedi cael cefnogaeth

**87**
o gartrefi wedi cael diogelwch gwell

**190**
o ymyriadau i ymgymryd â mynediad i bennu cydymffurfiaeth nwy / trydanol

### Edrych **Ymlaen**

Rydyn ni hefyd yn brysur yn gweithio tuag at ennill achrediad Domestic Abuse Housing Alliance, trwy barhau i ddatblygu ein hadnoddau, hyfforddi ein staff a chymryd camau i wella'r cymorth a gynigir i bobl sy'n byw gyda chamdriniaeth.

***Yn darparu cartref sy'n ddiogel (Arolwg LIC):**

**90%**
yn fodlon (8fed safle)

## Gwasanaeth gwell i gwsmeriaid – Tîm Cymdogaeth

Fe ddwedoch chi'n blwmp ac yn blaen ei bod yn bwysig cael cyngor clir, cynllun gweithredu y cytunwyd arno a chyswllt ac adborth rheolaidd gyda'ch swyddog penodedig, wrth adrodd am unrhyw bryderon neu niwsans yn y gymdogaeth i ni.

Yn ganlyniad, rydyn ni wedi gwneud rhai newidiadau i'n prosesau ac wedi gweld lefelau boddhad cwsmeriaid yn ail hanner y flwyddyn yn codi o 63% i 90%.

## Dywedodd tenant hapus wrthon ni...

***"Rwy'n fodlon iawn â sut mae fy achos wedi cael ei reoli, y gefnogaeth a gynigiwyd, a'r adborth a gafwyd. Gwrandawodd y swyddog newydd arnaf yn amyneddgar wrth i mi egluro am y materion gyda fy nghymydog, ac roedd yn empathetig ac yn gefnogol, ac aeth allan o'i ffordd i geisio dod o hyd i ateb. Mae'r swyddog wedi bod yn angel o'r nef."***

***Mae fy rhent yn cynnig gwerth am arian (arolwg LIC):**



**87%**

yn fodlon (5ed safle)

# Cefnogi ein cymunedau

## Housing and Wellbeing Service

Nid yw'r galw am ein gwasanaeth iechyd a llesiant erioed wedi bod mor uchel. Rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth i **86** o aelwydydd yn Y Fenni, Cil-y-coed a Brynbuga. Cyflwynwyd cymorthfeydd galw-heibio yn Y Fenni a Chil-y-coed, gan gynnig gwasanaeth mwy ymatebol.

## Providing tenancy and wellbeing support

Mae ein Hyfforddwyr Tenantiaeth wedi hyfforddi a chefnogi **63** o denantiaid i gadw eu tenantiaethau (contractau) a blaenoriaethu talu eu rhent.

## Supporting older people at our sheltered accommodation

Mae ein Swyddogion Byw Cymunedol wedi bod yn brysur ar draws y Sir, yn cefnogi ein trigolion hŷn. Mae ein llety wedi bod yn fwrlwm o weithgarwch, cysylltu a chymdeithasu.

**Dyma flas ar rai o'r gweithgareddau ...**

Ymunodd gwirfoddolwyr o'r llyfrgell leol â thrigolion The Lawns a Chwrt Severn i hel atgofion am y 1970au a'u rolau mewn hanes.

Cynhaliwyd digwyddiad siopa tebyg i farchnad yng Nghwrt Severn, er budd trigolion â phroblemau symudedd a chydweithio cymunedol.

Trefnodd preswylwyr The Reddings werthu cacennau ar gyfer Macmillan, i godi arian ar gyfer ymchwil canser.

# Astudiaeth Achos

## Peidiwch â Cherdded Heibio – Stori Tenant D


**Daeth Tenant D i'n sylw gyntaf pan gododd ein tîm trwsio gerdyn 'Peidiwch â Cherdded Heibio' i godi eu pryder am amodau byw D a'i frwydrau ariannol.**

Cyfeiriwyd yr achos i ddechrau at ein tîm Moneywise a anfonodd ei 'achos' at y tîm llesiant a lles er mwyn mynd ati mewn ffordd fwy cyfannol.

Roedd D wedi bod yn byw mewn eiddo a oedd mewn cyflwr gwael, roedd yn camddefnyddio alcohol ac nid oedd wedi bod yn gofalu amdano'i hun nac yn mynd i apwyntiadau meddygol, ac nid oedd yn gallu rheoli ei arian.

**Yna, rhoddwyd swyddog cymorth a llesiant tai i D, sef Wendy. Dros y 15 mis diwethaf datblygodd perthynas o ymddiriedaeth a chefnogaeth rhyngddyn nhw, a chyflawnwyd y canlyniadau canlynol ...**

- Mae wedi mynd i'r afael â'i ddibyniaeth ar alcohol ac yn gweithio'n dda gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent.
- Mae D yn blaenoriaethu ei iechyd a nawr yn mynd i bob apwyntiad meddygol
- Mae ei gartref wedi mynd o gyflwr gwael i gyflwr ardderchog, ac, a dweud y gwir, mae nawr yn falch o'i gartref ac yn mynnu bod popeth yn ei le.
- Mae'n gofalu am y ffordd y mae'n edrych ac yn cael cawod, yn eillio ac yn newid ei ddillad bob dydd
- Mae D yn coginio ei brydau bwyd ei hun ac yn rheoli pob agwedd ar ei fywyd yn annibynnol iawn



## Meddai Wendy:

"Mae D wedi mynd o fyw mewn lle gwael i gael arian a balchder ynddo'i hun a'i gartref, ac mae nawr yn mwynhau ei fywyd eto - mae wedi bod yn llwyddiant go iawn. Mae wedi gweithio'n wych gyda fi a'r holl wasanaethau cymorth allanol. Mae hyd yn oed yn mwynhau coginio, yn mynd allan am dro ac yn gyffrous am fynd ar wyliau. Rwy'n teimlo'n hynod o falch o'r hyn y mae D wedi'i gyflawni - diolch byth am ein cynllun 'Peidiwch â Cherdded Heibio'."

## Meddai D:

"Pan wnes i gyfarfod â Wendy, 'doedd dim gobaith gen i, roedd gen i lawer o broblemau yn fy mywyd. Roedd symud i'r fflat yn beth hyfryd ond doeddwn i ddim yn gallu cadw'r lle mewn cyflwr da ac fe gafodd hynny effaith ar fy iechyd meddwl. Roeddwn i eisiau tynnu'r cwilt dros fy mhen fel petai, ond fe wnaeth Wendy fy helpu i gael y gefnogaeth iawn ac i ddelio â phopeth. Rydw i nawr yn mynd dramor am y tro cyntaf ers 5 mlynedd, ac mae popeth yn bositif iawn ar hyn o bryd. Mae Wendy wedi bod yn wych a heb ei hymyrraeth hi dydw i ddim eisiau meddwl beth allai fod wedi digwydd i fi.."

# Uchafbwyntiau o'r Gymuned

## Rhoi Punnoedd mewn Pocedi

**Dyma ambell ffordd rydyn ni'n helpu i sicrhau bod gennych fwy o arian i'w wario ar y pethau brafiach yn eich bywyd:**

**£1,132,277**

Mae ein tîm Moneywise wedi uchafu incwm tenantiaid trwy fanteisio ar grantiau a chyllid a rhoi cyngor ariannol

**£41,798**

o arian ychwanegol wedi'i gyfrannu i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed

**£221**

o gyfraniadau at y banc bwyd

**£228,373**

wedi ei hawlio mewn budd-daliadau anabledd, gan uchafu incwm tenantiaid

**£4,000**

o fwrsariaethau cyflogaeth wedi eu rhoi d

**£85,412**

o arian / bwyd / tanwydd allanol wedi ei sicrhau

**522**

Nifer y tenantiaid yr ydym wedi ymgysylltu â nhw

**32**

o denantiaid wedi cael cefnogaeth i ddechrau gweithio

**210**

atgyfeiriad at arbenigwyr ar ynni

**40**

o 'Becynnau Gaeaf' wedi'u rhoi allan

**40**

Dyfarnwyd grant Lluosi o **£200,000** i ni i gyflwyno cyrsiau rhifedd a sesiynau mentora

## Cadw'r bwrlwm yn ein cymunedau

**39**

digwyddiad wedi eu cyd -gynhyrchu gan ddenu **1,730** o bobl

**13,467**

o oriau gwirfoddoli cymunedol wedi'u cwblhau, sy'n cyfateb i **£140,326.14**

**£50,296**

trwy gyllid allanol ar gyfer prosiectau a arweinir gan y gymuned

**£2,750**

o fudd cymunedol i gefnogi ein cymunedau

**£4,926**

wedi ei roi gefnogi ein hybiau dan arweiniad gwirfoddolwyr

**4**

preswylydd wedi eu recriwtio i grŵp llais cymunedol y preswylwyr

**£200**

wedi ei roi i'r caffi Wcrainaidd

COMMUNITY BUZZ




Mae ein staff sy'n gwirfoddoli a'n hyrwyddwyr digidol yn mynd gam ymhellach



# Helpu i gysylltu ein cymunedau yn ddigidol

Mae ein tîm **iConnect** wedi bod yn brysur yn cefnogi cymunedau ehangach Sir Fynwy i fynd ar-lein, i cadw cyswllt â'u teuluoedd a'u ffrindiau, i gael mynediad at wasanaethau a mwy.

**Mewn 12 mis, maen nhw wedi cyflawni'r canlynol ...**

**222**
o bobl wedi bod mewn sesiynau galw-heibio digidol

**156**
o bobl wedi gwella'u sgiliau bywyd

**17**
hyrwyddwr digidol wedi'u recriwtio ac wedi gweithio **984** awr wirfoddol

**7**
eiddo â chysylltedd gwell

**3**
gwirfoddolwr iConnect wedi cael eu cefnogi i ddechau gweithio

**25**
o ddigwyddiadau a phartneriaid cymunedol wedi cael eu cefnogi

**45**
o bobl wedi benthyg dyfeisiau digidol

iConnect
The digital world at your fingertips

## Arbed £oedd a'r blaned

**29.7**

tunnell o wastraff bwyd wedi cael eu harbed rhag mynd i safleoedd tirlenwi trwy brosiectau oergelloedd cymunedol yn ein Hybiau Cymunedol

**5**

dyfais ddigidol wedi'u hadnewyddu wedi'u prynu i'w defnyddio yn y gymuned

**4**

ymgyrch gasglu sbwriel, yn cynnwys **46** gwirfoddolwr

**523**

o gynhyrchion mislif cynaliadwy wedi'u dosbarthu trwy hybiau cymunedol lleol

**2**

grŵp cymunedol wedi cael cymorth i sefydlu banciau babi newydd a **41** teulu wedi cael eitemau ar gyfer eu babi

**17**

beic wedi'u rhoi a'u huwchgylchu



## Gwaith da ...

- Enillwyd **Gwobr Tai CIH** am Ragoriaeth i Gwsmeriaid mewn Oes Ddigidol am gyfleuster Monmouthshire Homesearch.
- Enillodd Wyesham Warren **Wobr TPAS** am gefnogi cymunedau.
- Enillodd Gateway Y Fenni **Wobr 'Hyrwyddwr Cymunedol'** am waith cymunedol ehangach y grŵp.

## Dathlu ein cymunedau




Ymunom gyda GAVO i lansio Gwobrau Gwirfoddoli cyntaf Sir Fynwy, i gydnabod a dathlu'r cymunedau a'r bobl sy'n gweithio'n ddiflino i wneud Sir Fynwy yn lle gwych i fyw.

Cynhaliwyd y noson yn Eglwys Gateway, Y Fenni, a chafwyd dros **60** o enwebiadau, **11** categori ac **11** o enillwyr. Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol. Cyflwynwyd 'Gwobr yr Uchel Siryf' yn annisgwyl hefyd i hyrwyddwr cymunedol sy'n gwneud mwy na'r disgwyl yn rheolaidd dros ei chymuned.



# Dathlu ein cymunedau



# Nawdd cymunedol

Eleni, roedd gennym gronfa gronnus o **£40,000** a oedd ar gael i'n cymunedau a'n grwpiau yn Sir Fynwy, trwy ein dau gynllun nawdd..

## Pitch for your Project

**Cyfanswm o £33,000** (gan gynnwys £8,000 gan Gyngor Sir Fynwy)

Er mwyn annog ceisiadau gan grwpiau cymunedol bach a cheisiadau mwy gan hyrwyddwyr cymunedol sefydledig, aethom ati i gyflwyno dau gategori ychwanegol.

Cawsom **47** cais a chawsom ein syfrdanu gan yr awydd a ddangoswyd gan bobl i helpu eu cymunedau i ffynnu.

**Yr hyn a ddyfarnwyd gennym ...**

**11**

**Pitch for a Little Bit** - cafodd 11 o ymgeiswyr gyfanswm o **£3,336**

**4**

**Pitch for a Bit More** - cafodd 4 ymgeisydd gyfanswm o **£14,645**

**6**

**Pitch for Your Project** - cafodd 6 ymgeisydd gyfanswm o **£13,877**

Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn amrywio o helpu i ariannu sgiliau llythrennedd, rhifedd a bywyd i bobl sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau, i helpu i ariannu'r gwaith o drawsnewid man gwyrdd yn ardd gymunedol ffyniannus sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

## Nawdd Corfforaethol

Mae gennym gronfa nawdd gorfforaethol o £7,000 y gall cymunedau a grwpiau Sir Fynwy gyflwyno cais iddi. **Mae rhai o'r grwpiau a gefnogwyd eleni yn cynnwys:**

- **Grŵp Gŵyl Tyndyrn**
- **Côr Plant Goetre**
- **Clwb Criced Sudbrook**




# Helpu cymunedau i dyfu gyda nawdd cymunedol



# Astudiaeth Achos

## Together Works yn Gofyn am Ychydig Mwy

**Mae Together Works yn hwb cymunedol yng nghanol Cil-y-coed sy'n darparu nifer o brosiectau cymunedol yn seiliedig ar angen lleol, gan gynnwys crefftau, gweithgareddau i blant, lle diogel a phrosiectau coginio.**

Mae'r hwb hefyd yn darparu lleoliad i sefydliadau partner gwrdd â'u cleientiaid er mwyn rhoi cyngor a chymorth neu ddangos y ffordd at asiantaethau eraill.

Cyflwynodd yr hwb gais i 'Pitch for a Bit More' a chafodd **£3,000** i brynu rhewgell ac oergell fasnachol a theclyn gwneud labeli a thermomedr digidol, er mwyn darparu prydau wedi'u rhewi ar gyfer y gymuned am bris isel neu am bris y gallai'r prynwr ei fforddio.

Mae'r hwb yn gweithio gyda llawer o'r grwpiau sy'n agored i niwed sydd wedi cael eu taro galetaf yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Disgwylir y bydd darparu prydau wedi'u rhewi yn helpu aelodau'r gymuned sydd ag incwm cyfyngedig i ddefnyddio bwyd a fyddai'n cael ei wastraffu fel arall.

***"Roedden ni mor falch o gael grant gan ein ffrindiau yn MHA i brynu'r 'rhewgell gornel'. Mae ein gwirfoddolwr, Jane, yn gogydd proffesiynol ac yn gwneud prydau cartref fel cyri a reis. Maen nhw'n costio £3 ond os ydych chi'n ei chael hi'n anodd, gallwch dalu faint bynnag allwch chi ei fforddio."*** **- Isla, Together Works**



# Astudiaeth Achos

## Grymuso Trwy Ymgysylltu â'r Gymuned

**Am sawl blwyddyn roedd Mrs X yn aelod swil o Grŵp Cymunedol yn Nhrefynwy, ac yn amharod i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.**

Cymerodd y cam allweddol o symud yn ôl i Gil-y-coed lle cafodd fwy o gefnogaeth teuluol ymarferol. Sbardunodd hyn drawsnewidiad rhyfeddol yn ei hymgysylltiad, ac ymrwymiad newydd i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol, gan gynnwys cofrestru fel aelod llawn o grŵp Llais Cymunedol MHA i breswylwyr.

Roedd angerdd a brwdfrydedd Mrs X hefyd yn allweddol wrth sefydlu 'MasterChef Minis'; rhaglen ar-lein 5 wythnos i blant sydd â'u bryd ar fod y Jamie Oliver neu Prue Leith nesaf!

Gyda chyllideb fach, creodd ryseitiau, recordiodd fideos coginio hawdd eu dilyn, a dyfeisiodd gynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i rannu'r fideos. Profodd MasterChef Minis yn hynod boblogaidd, a hynny'n bennaf oherwydd ymroddiad ac arweiniad aruthrol Mrs X – rydyn ni'n falch iawn ohoni.

Yn dilyn llwyddiant MasterChef Minis, aeth Mrs X gam ymhellach trwy drefnu parti Calan Gaeaf a dathliad Nadoligaidd, yn arwydd pellach o'i hymrwymiad i ddod â'i chymuned leol at ei gilydd.

Mae Mrs X wedi cymryd rhan mewn cynadleddau amrywiol i denantiaid yn ddiweddar, ac mae'n amlwg ei bod wedi ffeindio'i llais, er mawr lawenydd i staff MHA. Mae ei hyder yn tyfu o hyd, ac yn hytrach nag eistedd yn y cefndir mae'n hapus i rannu ei barn a'i syniadau a hyd yn oed yn eirioli dros ei chyd-denantiaid, ei chymuned ac MHA.

**Adborth o'r digwyddiad:**

***"Digwyddiad hollol wych drwyddo draw! Roedd cael y plant i goginio prydau bwyd wedi bod yn brofiad pleserus a gwych. Doedd y ryseitiau ddim yn gymhleth ac roedd y cyfarwyddiadau cam-wrth-gam a gafwyd gan Mrs X a'i theulu yn wych."***



# Ein Busnes

**Rydyn ni'n arwain y ffordd yng Nghymru gyda'n gwasanaethau incwm:**

Llwyddon ni i gynyddu ein trosiant blynyddol i **£26million**

Ni fu'n rhaid troi unrhyw un o'i gartref i'w wneud yn ddigartrefedd

Mae ein hôl-ddyledion presennol yn **2.18%** (yn erbyn targed o 3%)

Mae ôl-ddyledion ein cyn-denantiaid ar eu hisaf mewn 3 blynedd

Mae gennym yr Ôl-ddyledion Credyd Cynhwysol isaf erioed

## Ein hymrwymiadau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Chynhwysiant

Mae bod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol lle gall pobl deimlo eu bod yn cael eu derbyn, teimlo'n gyfforddus a theimlo eu bod yn cael eu parchu, yn rhan o'n natur ac yn gyfrifoldeb ar bawb yn MHA.

**Yn 2023 rydyn ni wedi ...**

Lansio ein grŵp trawsadrannol mewnol sy'n cwrdd yn rheolaidd, i sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenllaw wrth ddarparu'n gwasanaethau.

Cymryd rhan yn Pride Y Fenni, a dyfarnwyd £446 iddynt i dalu am drwydded fasnachu o'n cronfa nawdd Pitch for Your Project.


Cynnal te-parti 'cydraddol-de' i nodi mis Pride. Fe fu'r y staff yn gwisgo lliwiau'r enfys ac yn rhannu eu dyheadau am fyd mwy cynhwysol.

Cefnogwyd a dathlwyd digwyddiadau ymwybyddiaeth gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant, Diwrnod y Rhuban Gwyn, Mis Hanes Pobl Ddu, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac Wythnos Niwroamrywiaeth, trwy addo ein cymorth a rhannu adnoddau a'n barn resources and our views.

# Cost a Pherfformiad

## O ble mae'r Grŵp yn cael ei arian:

**Incwm 2023/2024**





- Rhent I'w Dderbyn
- Incwm o Daliadau Gwasanaeth
- Incwm gan Lesddeiliaid
- Incwm ar gyfer Gwasanaethau Cymorth
- Grantiau Llywodraeth wedi'u Hamorteiddio
- Incwm Arall

Cyfanswm **£25,804m**

## Sut mae arian y Grŵp yn cael ei wario:

**Gwariant 2023/2024**




- Costau Rheoli
- Costau Taliadau Gwasanaeth
- Cynnal a Chadw Arferol
- Atgyweiriadau Mawr
- Drwg-ddyledion
- Dibrisiant Tai
- Costau Eraill

Cyfanswm **£20,931m**




Hoffech chi ddarllen rhagor am ein gweithrediadau busnes a phwysigrwydd darparu gwerth am arian? Ewch at ein cyhoeddiadau **Adolygiad Ariannol** a **Gwerth am Arian** ar ein gwefan.




# Cefnogi ein harweinwyr a'n cymunedau i ffynnu



# Codi arian i elusennau

**Yn MHA rydyn ni'n griw elusennol iawn ac yn ystod 2022/23 fe wnaethon ni godi ...**

## £565

i Achub y Plant trwy ein raffl Nadolig a diwrnodau siwmperi Nadolig

## £123

i Shelter Cymru o gyfraniadau a wnaed o gronfa'r arolwg staff

# Yn falch o weithio i MHA

Mae iechyd a llesiant ein staff yn bwysig iawn i ni, felly rydyn ni'n hoffi clywed eu barn nhw.

**Dyma rai o uchafbwyntiau ein harolwg staff blynyddol ...**

## 100%

yn hyderus bod ganddynt y sgiliau i wneud eu gwaith

## 98%

yn credu eu bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i lwyddiant MHA

## 95%

yn dweud bod eu rheolwr yn hyrwyddo gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

## 97%

yn teimlo bod eu tîm yn cefnogi ei gilydd

## 94%

yn falch o weithio i MHA

# Cysylltu â ni

**Canolfan Galwadau Cwsmeriaid ...**

**18**

eiliad – yr amser y mae'n ei gymryd i ateb galwad, ar gyfartaledd

**92%**

o'r holl alwadau yn cael eu hateb o fewn 30 eiliad

**84.4%**

o faterion yn cael eu datrys yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf

**12,744**

o negeseuon e-bost

**814**

o sgyrsiau byw

**13,588**

o ryngweithiadau digidol i gyd

**31%**

o'r holl ryngweithiadau yn ddigidol

**99.8%**

o bobl yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarparwyr gan y tîm o Gynghorwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid

*“Mae boddhad cwsmeriaid wrth wraidd popeth y mae Canolfan Gyswllt MHA yn ei wneud. Rydyn ni’n ymfalchïo yn y gwasanaeth yr ydyn ni’n ei gynnig, ac yn meithrin perthynas â’n cwsmeriaid ac yn sicrhau bod eu rhyngweithio â ni mor ddymunol a defnyddiol â phosibl. Mae’r canlyniadau hyn yn dyst i waith caled a gofal y cynghorwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid wrth iddyn nhw wneud eu gwaith bob-dydd.”*

**Vic Simms, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid**

# Symud Ymlaen ...

## Mae ap MyMHA wedi glanio yr haf hwn




Peidiwch ag anghofio y gallwch chi wirio’ch cyfrif, talu’ch rhent, rhoi gwybod am atgyweiriad neu ymddygiad gwrthgymdeithasol – unrhyw adeg o’r dydd, sy’n gyfleus i chi.

Sganiwch ar gyfer Android

Sganiwch ar gyfer Apple

# Dewch i ni gymdeithasu

Rydyn ni'n gwybod nad yw cyfryngau cymdeithasol i bawb, ond os cânt eu rheoli'n iawn maen nhw'n llefydd cymdeithasol gwych ac yn offeryn cyfathrebu rhagorol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan bwysig o'n cyfuniad o ddulliau cyfathrebu sy'n ein galluogi i gyfathrebu ar flaenau'n bysedd.

Ar hyn o bryd mae MHA yn cyfathrebu ar draws 5 llwyfan cyfryngau cymdeithasol gwahanol.

Does dim rhaid i chi bostio unrhyw beth i gadw ar flaen y wybodaeth ddiweddaraf, dim ond ein dilyn, a chewch wybodaeth ar unwaith yn syth o MHA i'ch ffôn.

## Ble gallwch chi ddod o hyd i ni ...

**4,937**
o ddilynwyr

**3,117**
o ddilynwyr

**3,000**
o ddilynwyr (MHA)


**1,779**
o ddilynwyr


**1,000**
o ddilynwyr

**1,200**
o ddilynwyr (Community Buzz)

## Sut ddefnyddion ni'r cyfryngau cymdeithasol yn 2023 ...

- Cyhoeddi lansio yr ap i denantiaid
- Hyrwyddo swyddi gwag, seddi gwag ar y Bwrdd a phrentisiaethau
- Hyrwyddo beth sy'n digwydd yn ein cymunedau
- Rydyn ni'n cyhoeddi ein holl newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn gyntaf
- Cyhoeddi pryd yr oedd y ffenestri Pitch for a Project a nawdd corfforaethol yn agor
- Lansio a dathlu ein gwobrau gwirfoddoli blynyddol






# Ein Planed

**Mae cynaliadwyedd yn uchel ar ein hagenda. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod gennym y mesurau iawn yn eu lle i fynd i'r afael â newid hinsawdd.**

Mae ein ffocws ar gyrraedd sero net erbyn 2050 ar gyfer ein holl gartrefi presennol a chartrefi newydd, ac rydyn ni wedi datblygu map trywydd a fydd yn canolbwyntio ar wella lefelau inswleiddio a defnyddio technolegau adnewyddadwy fel paneli solar.

### Yr hyn yr ydyn ni wedi'i gyflawni ...

Gostyngiad o **47%** yn ein hallyriadau CO2.

Cyflwyno ein **5** cartref sero net cyntaf yn Y Dyfawden.

Cadw ein hachrediadau iechyd a diogelwch **ISO 14001** ac **ISO 45001**.

Mwy o ddefnydd o gadwyni cyflenwi lleol lle bo hynny'n bosibl, gan helpu i leihau ein hôl troed carbon wrth adeiladu.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein Strategaeth Busnes Cyfrifol ar ein gwefan

# Gweithio i ddatgarboneiddio ein cartrefi

Cafodd ein llety i bobl hŷn yng Nghwrt Severn, yng Nghil-y-coed drawsnewidiad MAWR diolch i raglen ôl-osod i optimeiddio Llywodraeth Cymru a grëwyd i gefnogi darparwyr tai cymdeithasol i ddatgarboneiddio eu cartrefi.

Dyfarnwyd **£1.4m** ar gyfer y gwaith o ddatblygu 30 o fflatiau, i helpu i wneud yr eiddo yn fwy ynni-effeithlon ac yn fwy addas ar gyfer y dyfodol i'w drigolion hŷn, sydd eisoes yn elwa ar ostyngiad ar eu biliau trydan.

Roedd y gwaith ailwampio helaeth yn cynnwys gosod paneli solar, drysau tân, drysau blaen a chefn â chymorth pŵer, mynediad trwy ramp i ddiangfeydd tân yn y cefn, ffenestri a balconïau newydd ac inswleiddio.



# Ein Pobl

**Mae ein Tîm Gweithredol** wir yn gwybod eu pethau ac yn griw hawdd i fynd atynt! Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb cyffredinol dros redeg MHA o ddydd i ddydd, gan sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd cywir ac yn parhau i yrru ein busnes yn ei flaen.



John **Keegan**
Prif Weithredwr



Gwyndaf **Tobias**
Cyfarwyddwr Adnoddau a Dirprwy Brif Weithredwr



Becky **Oliver**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo (Gwasanaethau Adeiladu ac Asedau)



Michele **Morgan**
Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau



Chris **Kinsey**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo (Datblygu a Capsel)

**Daw aelodau ein Bwrdd** o bob cefndir, ac nid o'r sector tai cymdeithasol yn unig. Mae hyn yn ein helpu i weld y darlun ehangach ac i edrych ar bethau o safbwynt gwahanol.

**Maen nhw'n gosod ein strategaeth gorfforaethol ac yn ein herio i fod y gorau y gallwn fod.**



Tony **Deakin**
Cadeirydd Grŵp MHA



Dimitri **Batrouni**
Is-gadeirydd Grŵp MHA



Colin **Lewis**
Aelod o'r Bwrdd



Alan **Soper**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Aelod o Fwrdd Capsel



John **Miller**
Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Is-gadeirydd Bwrdd Capsel



Cael **Sendell-Price**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Reg **Kilpatrick**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Lynda **Campbell**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Llywodraethu a Thâl ac Aelod o Fwrdd y Grŵp



Nicola **Tindale**
Aelod o Fwrdd y Grŵp

## Rhaid ffarwelio a diolch ...

**i'r pedwar aelod anhygoel isod sydd wedi gadael Bwrdd MHA eleni**



Andy **Jones**
Cadeirydd Grŵp MHA



Emma **Brute**
Cadeirydd y Pwyllgor Llais Cymunedol ac Aelod o Fwrdd y Grŵp



Hannah **Vickers**
Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Datblygu



Mat **Cooling**
Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae pob aelod yn ei gyfrannu at ein Bwrdd, ewch draw i'n gwefan newydd.

# Sut i gymryd rhan




Mae eich angen chi arnon ni i'n helpu i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud yn dda, a ble mae angen i ni weithio'n galetach!

Rydyn ni'n cynnal arolygon yn aml i gael adborth am feysydd penodol o'n gwaith, ac mae gennym grŵp Llais Cymunedol hefyd, sy'n cynnwys preswylwyr a chynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'n cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn.

Mae Llais Cymunedol yn gyswllt uniongyrchol rhwng ein trigolion a Bwrdd ein Grŵp. Mae eu profiad amhrisiadwy yn eu galluogi i ddylanwadu ar y ffordd yr ydyn ni'n dylunio ac yn darparu ein gwasanaethau, a'i herio, o safbwynt cwsmeriaid, fel y gallwn ni fod yn sicr ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau iawn yn y ffordd iawn.

Os hoffech chi gymryd rhan a dweud eich dweud, cysylltwch â **customerservices@ monmouthshirehousing.co.uk**

Diolch

## Ymunwch â Llais Cymunedol



Helô, Michele ydw i, cadeirydd dros dro Llais Cymunedol.

Yn gyntaf, rhaid canu'n iach â'n cadeirydd blaenorol, Emma Brute, a wnaeth y penderfyniad anodd yn ddiweddar i sefyll i lawr o Llais Cymunedol (LlC) oherwydd ymrwymiadau gwaith llawn-amser. Diolch i Emma am ei hymroddiad, ei gweledigaeth a'i syniadau di-ben-draw, a helpodd i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer ein grŵp Llais Cymunedol i breswylwyr.

Ar hyn o bryd mae gennym 7 aelod, ac maen nhw'n gyfuniad o bobl o gefndiroedd gwahanol sy'n gallu dod â barn a safbwyntiau gwahanol at fwrdd LlC.

Maen nhw wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau gan gynnwys arolygon lleithder a llwydni, wedi rhannu eu dymuniadau a'u dyheadau ar gyfer ein gwefan newydd, ac wedi'n helpu i greu ein Strategaeth Gofal Cwsmeriaid. Maen nhw hefyd wedi rhannu eu syniadau am wella cartrefi, a fydd yn bwydo i mewn i'n Strategaeth Rheoli Asedau.

Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o'r grŵp egnïol hwn, ac o fod yn cadw sedd y Cadeirydd yn gynnes. Ar hyn o bryd rydyn ni'n chwilio am fwy o aelodau newydd i'n helpu i gadw'r grŵp yn llawn syniadau ffres.

Yn ogystal â'r cyfle i wella pethau i'n trigolion, mae hefyd yn gyfle gwych i roi hwb i'ch CV!

Mae'r holl aelodau'n cael peth hyfforddiant defnyddiol ac mae yna lawer o gymorth i'ch helpu i ddatblygu sgiliau newydd.

*Michele Morgan, Cadeirydd LlC*

# Eich adborth

**Dydy pethau ddim yn mynd yn iawn bob tro ...**

Pan fyddwn ni'n cael rhywbeth yn anghywir, rydyn ni'n ei gydnabod ac yn gweithio gyda chi i'w wneud yn iawn. Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich adborth yn fawr iawn - mae'n ein helpu i ddysgu o'n camgymeriadau ac i wneud yn well.

**Cwynion a Gafwyd gan Breswylwyr...**



**17**

Cwyn ffurfiol

**21**

Cais am iawndal

**76.19%**

o geisiadau/gŵynion wedi cael ymateb o fewn y targed

***Rwy'n ymddiried yn fy nghymdeithas dai (Arolwg LIC):**



**85%**

yn cytuno (5ed safle)

# Diolch am ddarllen ein hadolygiad!

I ddarllen rhagor am ein perfformiad ewch i'n gwefan.

## Ydych chi wedi actifadu eich cyfrif ar-lein i denantiaid?

I adrodd am atgyweiriadau a'u tracio, neu wirio eich cyfrif rhent, 24/7, ewch i www.monmouthshirehousing.co.uk neu sganiwch y cod isod:

